## HYSBYSIAD PREIFATRWYDD DATA CYNGOR SIR FYNWY

| | |
|---|---|
| **Cyfarwyddiaeth:** | Menter |
| **Gwasanaeth:** | MonLife |
| **Manylion Cyswllt:** | dataprotection@monmouthshire.gov.uk |
| **Enw'r Hysbysiad Preifatrwydd:** | Llogi Cyfleusterau, Archebion a Digwyddiadau (sy'n cwmpasu'r holl adeiladau a chyfleusterau) |

# Sut y byddwn yn defnyddio'ch gwybodaeth

## Eich Rhwymedigaethau

**Mae dyletswydd arnoch i ddarparu'r wybodaeth y gofynnir amdani**

Mae rhwymedigaeth/gofyniad cytundebol i chi ddarparu'r wybodaeth y gofynnir amdano fel y manylir isod:

Rydych yn ymrwymo i delerau ac amodau a osodir gan Gyngor Sir Fynwy yn unol â gofynion llogi a/neu archebu'r cyfleuster. Gwybodaeth rydych chi'n ei darparu drwy gwblhau'r ffurflen. Heb y wybodaeth berthnasol, ni fyddwn yn gallu darparu'r gwasanaeth hwn/tasg gyhoeddus ac ni fyddwch yn gallu gwneud yr archeb.

## Pwrpas a sail gyfreithiol ar gyfer defnyddio eich gwybodaeth

**Pwrpas y prosesu, y sail gyfreithiol ar gyfer y cyfnodau prosesu a chadw**

Rydym yn defnyddio'r wybodaeth a gedwir amdanoch yn y ffyrdd canlynol:

Cyflawni ein rhwymedigaethau sy'n codi o unrhyw gontractau yr ymrwymwyd iddynt, gan gynnwys gwybodaeth ariannol, sy'n ymwneud â'r archeb.

Rhoi gwybod i chi am unrhyw newidiadau i'n gwasanaeth, gan gynnwys eich archeb.

## Pwy fydd yn cael mynediad at eich gwybodaeth?

Y Rheolydd Data ar gyfer eich gwybodaeth yw Cyngor Sir Fynwy.
E-bost: dataprotection@monmouthshire.gov.uk Efallai y bydd Rheolwyr Data Eraill hefyd yn gyfrifol am eich gwybodaeth, gan ddibynnu ar yr amgylchiadau penodol. Cysylltwch â'r Gwasanaeth am ragor o wybodaeth.

Rydym yn rhannu gwybodaeth gyda'n Hadran Credydwyr mewnol er mwyn asesu eich hawliau i unrhyw ffioedd sy'n ddyledus yn seiliedig ar y budd-daliadau/cyfleusterau rydych yn eu derbyn, ac archwilio mewnol ar gyfer cywirdeb prosesu.

**Ceisiadau am wybodaeth**

Gall yr holl wybodaeth a gedwir gan Gyngor Sir Fynwy fod yn destun ceisiadau o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol ac unrhyw gyfraith Diogelu Data arall.

Os yw'r wybodaeth a ddarperir gennych yn agored i gais o'r fath, lle y bo'n bosibl, bydd Cyngor Sir Fynwy yn ymgynghori â chi o ran ei datgelu. Os ydych yn gwrthwynebu datgelu'ch

gwybodaeth, byddwn yn atal eich gwybodaeth os yw'r ddeddfwriaeth berthnasol yn caniatáu hynny.

## Am ba mor hir byddwn yn cadw eich gwybodaeth?

Bydd Cyngor Sir Fynwy yn cadw'r wybodaeth hon drwy gydol yr archeb, a lle mae trafodiad ariannol, yn unol â'n rhwymedigaeth gyfreithiol i gadw'r wybodaeth hon.

## A ddefnyddir systemau awtomataidd i wneud penderfyniadau/proffilio?

Byddwn yn defnyddio'ch gwybodaeth yn achlysurol i ddal a dadansoddi'r defnydd o gyfleusterau.

Yn gyffredinol, nid oes unrhyw benderfyniadau yn cael eu gwneud yng Nghyngor Sir Fynwy sy'n dibynnu dim ond ar wneud penderfyniadau neu "broffilio" awtomatig. Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â dataprotection@monmouthshire.gov.uk

## Marchnata

Byddwn ond yn defnyddio eich gwybodaeth at ddibenion marchnata, lle rydych wedi cydsynio'n glir i'ch manylion cyswllt gael eu defnyddio at ddibenion marchnata i hyrwyddo eich gwasanaeth i gynulleidfa ehangach.  Byddwch yn cael / wedi cael manylion am y marchnata y mae Cyngor Sir Fynwy yn ei ddarparu. Gallwch chi dynnu'n ôl eich caniatâd i farchnata ar unrhyw adeg trwy gysylltu â manylion y Fan Gwasanaeth ar frig y ffurflen hon.

## Eich Hawliau

**Eich hawliau o dan Reoliad Diogelu Data Cyffredinol yw:**

Yr hawl i gael gwybod
Yr hawl at fynediad
Yr hawl i gywiro
Yr hawl i hygludedd data
Hawliau mewn perthynas â gwneud penderfyniadau a phroffilio awtomataidd.
Yr hawl i iawndal os yw Cyngor Sir Fynwy yn methu â chydymffurfio â gofynion penodol y Rheoliad Gwarchod Data Cyffredinol mewn perthynas â'ch gwybodaeth.
Am fwy o wybodaeth, ewch i www.ico.org.uk

## Gweithdrefn Gwyno

Os ydych yn gwrthwynebu i'r ffordd y mae Cyngor Sir Fynwy yn trin eich data, mae gennych yr hawl i gwyno. Cysylltwch â'r Gwasanaeth a nodwyd ar frig y ddogfen hon gan amlinellu eich problemau. Dilynwch y ddolen hon i gael rhagor o wybodaeth am y broses gwyno.
Os ydych yn dal yn anhapus mae gennych hawl i gwyno i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth www.ico.org.uk

| | |
|---|---|
| **Rhif Hysbysiad Preifatrwydd:** | MonLifeSL001 |
| **Dyddiad Llunio:** | 27/04/2018 |
| **Dyddiad Cyhoeddi:** | 25/05/2018 |
| **Rhif y Fersiwn:** | 1 |

HYSBYSIAD PREIFATRWYDD DATA CYNGOR SIR FYNWY

# Hysbysiad Preifatrwydd Data Cryno

## Sut y byddwn yn defnyddio’ch gwybodaeth

Mae angen prosesu eich data personol gan Gyngor Sir Fynwy er mwyn prosesu holl archebion a llogi cyfleusterau yn llwyddiannus gan ganiatáu gwasanaeth effeithlon, a lle bo'n berthnasol i ddarparu'r gostyngiadau angenrheidiol. Heb y wybodaeth hon, ni fydd MonLife o fewn Cyngor Sir Fynwy yn gallu cyflawni (Tasg / Gwasanaeth) yn ôl yr angen i wneud hynny.

Bydd eich manylion yn cael eu rhannu'n gyfreithlon gydag adrannau mewnol dim ond am y rhesymau a grybwyllir uchod mewn modd diogel. O bryd i'w gilydd, efallai y bydd hefyd angen i ni rannu eich manylion personol gyda sefydliadau neu gwmnïau allanol er mwyn helpu i ddosbarthu deunyddiau marchnata, ond dim ond os bydd gennym eich caniatâd penodol i wneud hyn. Ni chaiff eich manylion personol eu rhannu ymhellach, oni bai mewn perthynas â diogelu neu rwymedigaethau cyfreithiol eraill.

Bydd eich cofnodion yn cael eu storio a'u cadw'n ddiogel yn unol â'n polisi cadw, oni bai bod angen i ni eu cadw o dan sail gyfreithlon arall.

Mae gennych nifer o hawliau mewn perthynas â'r wybodaeth, gan gynnwys yr hawl i gael mynediad at wybodaeth sydd gennym amdanoch chi a'r hawl i gwyno os ydych yn anfodlon gyda’r modd y mae eich gwybodaeth yn cael ei phrosesu. Am ragor o wybodaeth am sut rydym yn prosesu'ch gwybodaeth a'ch hawliau, cliciwch ar y ddolen ganlynol.

Os bydd angen i chi wneud cwyn am y ffordd y mae eich data wedi'i brosesu, cysylltwch â dataprotection@monmouthshire.go.uk neu os nad ydych chi'n llwyr fodlon, gallwch gysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ar-lein yn https://ico.org.uk/about-the-ico/other-languages/welsh/welsh-complaints/ neu drwy eu llinell gymorth: 0303 123 1113